GWASANAETH TRWSIO

CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD

Mae gennych yr hawl i fyw mewn cartref o safon sydd wedi ei gynnal yn dda. 'Rydym wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth trwsio o'r radd flaenaf ar eich cyfer.

Os hoffech gael y daflen hon mewn fformat gwahanol, fel Braille, llythrennau bras, neu mewn iaith arall, cysylltwch â ni ar 0300 123 8084.

Wrth i ni fuddsoddi yn eich cartrefi, mae'n hanfodol ein bod yn cynnal a chadw tai gyda gwasanaeth trwsio o safon uchel. Ein nod yw gwneud unrhyw waith sydd ei angen i'ch cartref mor gyflym ac mor hwylus â phosib.

GWNEUD CAIS AM WAITH TRWSIO

Gallwch ofyn am waith trwsio trwy ein system apwyntiadau. Bydd hyn yn gwneud yn siŵr eich bod yn gwybod yn union pryd fydd gwaith yn cael ei wneud yn eich cartref. 'Rydym yn adolygu'r gwasanaeth yn rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i gwrdd â'ch anghenion chi.

I drefnu gwaith trwsio:

- Ffoniwch ni ar 0300 123 8084 Rhwng 08:00 a 18:00 dydd Llun i ddydd Gwener, mae Swyddogion Gofal Cwsmer ar gael i ateb eich galwad. Tu allan i'r oriau hyn gwasanaeth argyfwng yn unig sydd ar gael gan ein swyddogion ar-alwad ar yr un rhif.
- E-bost trwsio@ccgwynedd.org.uk
- Cwblhewch ffurflen ar-lein ar ein gwefan www.ccgwynedd.org
- Neu gallwch ysgrifennu atom yn: Gwasanaeth Trwsio, Cynnal a Chadw, Cartrefi Cymunedol Gwynedd, PO Box 206, Bangor, LL57 9DS.

TRWSIO BRYS

Mae gennym wasanaeth trwsio brys ac argyfwng 24 awr.

Mae gwaith trwsio argyfwng yn gallu cynnwys:

- Llifogydd difrifol
- Peryglon i iechyd
- Risg diogelwch (security)
- Tân

Gallwch gysylltu â'r gwasanaeth argyfwng ar **0300 123 8084**.

Bydd pob achos yn cael ei asesu yn unigol a byddwn yn cytuno ar amserlen trwsio gyda phob tenant.

Mae gwaith arall yn cael ei drefnu yn ôl y math o drwsio sydd ei angen. Mae enghreifftiau isod ond nid yw'r rhestr yma yn gynhwysfawr.

Mae gwaith blaenoriaeth un diwrnod yn cynnwys:

- Colli trydan yn llwyr
- Soced drydanol neu olau peryglus
- Colli cyflenwad dŵr yn llwyr
- Colli cyflenwad nwy yn llwyr neu yn rhannol
- Ffliw i dân agored neu foeler wedi blocio
- Colli gwres yn llwyr neu hanfodol rhwng y 1af o Dachwedd a'r 30ain o Ebrill
- Draen dŵr budr, peipen wastraff neu doiled wedi blocio neu'n gollwng
- Toiled ddim yn fflysio (pan nad oes toiled arall ar gael)
- Peipen ddŵr neu wres, tanc neu seston yn gollwng yn ddifrifol
- Clo wedi torri ar ffenestr allanol neu ddrws

Gwaith blaenoriaeth tri diwrnod

- Colli trydan yn rhannol
- Colli cyflenwad dŵr yn rhannol
- Colli gwres yn llwyr neu hanfodol rhwng y 1af o Fai i a'r 31ain o Hydref
- Sinc, bath neu fasn wedi blocio

Gwaith blaenoriaeth saith diwrnod

- To yn gollwng
- Ffôn mynediad drws ddim yn gweithio
- Ffan cegin neu ystafell ymolchi ddim yn gweithio

TRWSIO ARFEROL

Mae gwaith trwsio arferol yn waith all aros am amser byr (hyd at fis) i gael ei wneud, ac yn waith nad yw'n cael ei ystyried yn frys. Mae'n cynnwys problemau bychain fel tap yn dripian, drysau mewnol rhydd a drysau cypyrddau cegin angen eu tynhau.

Gwaith cynnal a chadw rheolaidd ac wedi ei gynllunio

Bydd CCG yn gwneud gwaith cynnal a chadw rheolaidd ar eich cartref, er mwyn gofalu ei fod wedi ei gadw i safon dderbyniol.

Bydd hyn yn cynnwys:

- Gwasanaethu pob darn o offer nwy a thanwydd solet bob blwyddyn
- Addurno mannau cyffredin mewn

tai gwarchod a fflatiau
- Cynnal lifftiau cymunedol, larymau tân a mwg, cyfarpar diogelwch tân a goleuadau argyfwng
- Symud asbestos, lle bo angen
- Archwiliad diogelwch tân mewn adeiladau cymunedol
- Archwilio cyfleusterau storio dŵr cyffredin
- Cynnal mannau agored ac ardaloedd gwyrdd

DAMWEINIAU, DIFROD NEU GAMDDEFNYDD

Rydym yn gwneud gwaith trwsio o ganlyniad i ddefnydd arferol dydd i ddydd. Os oes angen gwneud unrhyw waith trwsio am nad ydych wedi edrych ar ôl eich cartref yn iawn, neu fod rhywun yn eich cartref wedi achosi difrod, ni fydd yn gwneud y gwaith trwsio ond byddwn yn codi tâl am wneud. Mae hyn yn cynnwys difrod gan unrhyw ymwelwr, plant neu anifeiliaid anwes. Rydym yn galw'r math yma o waith yn 'trwsio ad-daladwy'.

Byddwn yn dweud wrthych os yw'r gwaith yn 'ad-daladwy' cyn gwneud y gwaith'.

Ni fyddwn yn gwneud gwaith trwsio ad-daladwy heb roi gwybod i chi yn gyntaf, oni bai eich bod wedi gadael yr eiddo. Byddwch yn derbyn dyfynbris ar ôl i ni gael gwybod am y difrod ac yn cael anfoneb wedi i'r gwaith gael ei gwblhau. Bydd y swm yn aros ar eich cyfri nes bod y bil wedi ei dalu.

Os yw'r difrod o ganlyniad i drosedd (e.e. lladrad) mae'n rhaid i chi adrodd i'r heddlu yn ogystal â CCG. Cofiwch gael rhif trosedd gan yr heddlu.

GWAITH AIL OSOD A CHYFNEWID

Mae gwaith fel ail osod unedau cegin yn rhan o'n cynllun buddsoddi ac nid yw'n cael ei gynnwys yn ein gwasanaeth trwsio. Mewn amgylchiadau arferol byddwn yn cyfnewid eitemau fel hyn fel rhan o'n rhaglen gwaith wedi ei gynllunio yn seiliedig ar oed a chyflwr yr hyn sydd angen ei gyfenwid e.e. cwpwrdd cegin, ffenestr, ystafell ymolchi, ffensio ac ati. Mae eithriadau e.e. os yw eich boeler wedi torri byddwn yn ei gyfnewid ar y pryd. Gallwch ddarganfod mwy am y rhaglen fuddsoddi trwy gysylltu â ni ar 0300 123 8084.

Pwy sy'n gyfrifol am beth?

Tabl wedi atodi fel dogfen ar wahân.

HANDIMAN CCG

Os ydych dros 60, yn anabl neu gydag anghenion eraill ac angen cymorth gyda jobsys bychain o gwmpas y tŷ, yna mae'n bosib yn gall ein Handiman fod o help.

I gofrestru am y gwasanaeth cwblhewch ffurflen gofrestru oddi ar ein gwefan neu ffoniwch ni ar 0300 123 8084 a gofynnwch am y gwasanaeth Handiman. Unwaith 'rydych wedi derbyn llythyr yn cadarnhau eich bod yn gymwys ac wedi cofrestru yna gallwch wneud cais am waith yn y ffordd arferol.

MYNEDIAD I'CH CARTREF

Pan 'rydych yn trefnu amser efo ni i wneud gwaith trwsio yn eich cartref mae'n bwysig eich bod yn cadw at yr apwyntiad neu'n gadael i ni wybod os nad yw'n gyfleus. Os na wnewch chi hyn bydd yn achosi oedi i waith trwsio ar gartref rhywun arall. Mae'n torri eich cytundeb tenantiaeth i beidio â gadel i ni neu ein contractwyr ddod i mewn i'ch cartref i wneud gwaith ar adeg resymol os ydych wedi cael rhybudd digonol.

CWYNION

Ein gobaith yw eich bod yn hapus gyda'r gwaith trwsio sy'n cael ei wneud ar eich cartref. Os nad ydych yn hollol fodlon gallwch roi gwybod i ni trwy ffonio 0300 123 8084.

CYSYLLTU Â NI

Os ydych eisiau mwy o wybodaeth am ein gwasanaeth trwsio yna cysylltwch â ni:

Cartrefi Cymunedol Gwynedd
PO Box 206
Bangor
LL57 9DS

0300 123 8084
www.ccgwynedd.org

@CartrefiGwynedd
www.facebook.com/CCGwynedd

PWY SY'N GYFRIFOL AM BETH...

MATH O WAITH	MANYLION	AMSERLEN	NI	CHI
Addurno	Mewnol			✓
Ardaloedd cymunedol	Goleuadau, drysau, cloeon	1 diwrnod	✓	
Ardaloedd cymunedol	System mynediad	7 diwrnod	✓	
Boeleri	Gwaith cynnal	Blynyddol	✓	
Boeleri	Trwsio	1-3 diwrnod	✓	
Boeleri	Ail-osod a chymhwyso'r dyfais amseru			✓
Cawodydd	Sydd wedi eu gosod gan CCG	20 diwrnod	✓	
Cloeon	Colli goriadau ac atgyweirio o ganlyniad i fynediad nerthol			✓
Cloeon diffygiol		1 diwrnod	✓	
Cyntedd		20 diwrnod	✓	
Draen	Dad-flocio	1 diwrnod	✓	
Drysau - allanol	Gan gynnwys ffrâm	20 diwrnod	✓	
Drysau - mewnol	Addasu	20 diwrnod	✓	
Drysau - mewnol	Addasu ar gyfer carped newydd			✓
Dŵr poeth	Gan gynnwys gwresogydd trochi	1 a 3 diwrnod	✓	
Erial teledu - cymunedol		20 diwrnod	✓	
Erial teledu - tai unigol				✓

MATH O WAITH	MANYLION	AMSERLEN	NI	CHI
Ffenestri	Sil, sash, cord, clicied a fframwaith	20 diwrnod	✓	
Ffens a gatiau	Trwsio	20 diwrnod	✓	
Gerddi	Gan gynnwys torri gwair, gwrych a choed			✓
Goleuo diogelwch	Ardaloedd cyffredin	1 diwrnod	✓	
Goleuo diogelwch	Cartrefi	3 diwrnod	✓	
Gosodiadau a mân daclau	Bachyn cotiau, llenni, rheilen llenni ayyb			✓
Gosodiadau golau	Unedau seliedig mewn cegin, ystafell ymolchi, a goleuadau crog o'r nenfwd	3 diwrnod	✓	
Gosodiadau golau	Bwlb, ffiws, tiwb fflwroleuol ayyb			✓
Gosodiadau ystafell ymolchi	Cabinet, drych, llenni cawod, rheilen tyweli, cadwyni a phlygiau			✓
Gwteri	Dad-flocio	7 diwrnod	✓	
Gwydr	Wedi cracio neu dorri		✓	
Larwm mŵg a charbon monocsid	Systemau batri			✓
Lle tân	Gwaelod grât, padell llwch ayyb			✓
Lle tân	Cefn frics	20 diwrnod	✓	
Man teleffon				✓
Nwyddau tô a dŵr glaw	Llechi ar goll, gwteri wedi torri	20 diwrnod	✓	
Offer trydanol	Popty, oergell, peiriant golchi ayyb			✓

MATH O WAITH	MANYLION	AMSERLEN	NI	CHI
Plastro	Gwaith mân blastro	20 diwrnod	✓	
Plymio - gorlîf yn gollwng		20 diwrnod	✓	
Plymio - peipen ddŵr wedi byrstio neu'n gollwng		1 diwrnod	✓	
Plymio - tap wedi torri	tap yn sownd, dŵr yn rhedeg yn gyson	3 diwrnod	✓	
Plymio - tap wedi torri	Tap yn sownd, dim dŵr yn rhedeg	20 diwrnod	✓	
Polyn lein	Nid yw hyn yn cynnwys y llinell olchi	20 diwrnod	✓	
Rhwystrau	Bath a basn	3 diwrnod	✓	
Rhwystrau	Toiledau	1 diwrnod	✓	
Sedd toiled				✓
Socedi trydan	Socedi peryglus	1 diwrnod	✓	
Socedi trydan	Socedi wedi torri	20 diwrnod	✓	
Styllod llawr		20 diwrnod	✓	
Systemau awyru		7 diwrnod	✓	
Teils wal		20 diwrnod	✓	
Tô yn gollwng		7 diwrnod	✓	
Tô ar oledd (*Lean-to*)				✓
Unedau cegin	Gan gynnwys wynebau gweithio ayyb	20 diwrnod	✓	
Weirio (trydan)		Hyd at 20 diwrnod	✓	
Ysgubo simnai		Dwywaith y flwyddyn	✓	